# CAN,

*Yn gosod allan Fraint y rhai a obeithiant yn yr Arglwydd, a thruenus gyflwr yr annuwiol wedi ymadael a'r byd hwn.*

Ton—Bryniau'r Iwerddon.

O Frydain, clyw a deffro,
Mae heddyw'n gyflawn bryd
I ymofyn ffrynd a'th gadwo
Pan losgo hyn o fyd;
O gwybydd di a minnau,
Pan elo'n cyrph i'r bedd,
Mai gwell na mil o fydoedd
Fydd ffafar Duw a'i hedd.

Does nemawr iawn o amser
Gan neb o ddynolryw
Cyn myn'd o'r byd presennol
I ymddangos o flaen Duw,
Ac yno cawn ein barnu
Yn gywir am ein gwaith,
A'n settlo yn un o ddau le
Am dragwyddoldeb maith.

Daw gwae i gwrdd a'r dynion
Sy'n cablu enw Ion;
Rhyw ddydd y cant eu gosod
Mewn pair yn fawr eu poen,
Ac yno hwy a boenir
Am oesoedd rif y dail,
O eisiau credu'r geiriau
Lafaro Adda'r ail.

143

Mae'n dost i wel'd henafgwr
  Sydd bron a myn'd i'r bedd,
Yn rhodio llwybrau'r geiyn,
  Heb son am fryniav eedd.
Gwybyddwn fod y diwrnod
  O syndod yn nesau,
I boeni'r annuwolion,
  Gwobrwyo'r cyfiawn rai.

O cofiwn am y boreu
  Daw Crist i farnu,r byd,
Wrth swn yr euraidd udgorn
  Dawlr meirw o'r beddau i gyd;
Ac yno rhai rhoi cyfrif
  O flaen y Barnwr doeth,
O am gyfiawnder Iesu
  I guddio'r enaid noeth.

Bydd lawen gan y duwiol
  Gael clywed y gair Dewch,
Am oesoedd dirifedi
  Meddiannu'r nef a gewch;
Bydd yno wledd ddiddarfod
  O fewn i'r nefoedd wen,
Clodfori'r Oen fu farw
  I'w prynu ar y pren.

Ac yno rhydd y Barnwr
  Orchymyn rhwymo rhai
Sy'n awr yn weision pechod,
  A'u bwrw i uffernol ffau,
Ac yno'n rhwym fe'u bwrir,
  Ofnadwy fydd eu llef,
I'r tan bartowd i ddiafol
  A'i holl angylion ef.

x2052 23587

O dadau a mamau anhuwiol
 A phawb sy ar dir y byw,
Gweddiwch hwyr a bore
 Yn daer wrth orsedd Duw;
O llefwch am drugaredd
 Tra paro dyddiau'ch oes,
Fel galloch chwi a'ch teulu
 Gael rhan yn ngwaed y groes.

Na chredwch yr athrawiaeth
 Sydd gyda dynolryw,
Sy'n dweyd am Grist ei hunan,
 Nad oedd ef ddim yn Dduw;
Hwy ddwedant fod adferiad
 Ryw bryd o'r poenau i ddod;
Ni ddwedodd Iesu anwyl
 Fath beth a hyny erioed·

Pan fyddo'r ddaear yma
 Yn cael ev llosgi yn lan,
A'r moroedd mawr yn berwi
 I gyd fell llyn o dân,
A'r annuwiolion obry
 Yn rhincian dannedd, clyw,
Pryd hyn bydd pawb yn credu
 Fod Iesu Grist yn Dduw.

Roedd Thomas wedi credu
 Fod Iesu Grist yn Dduw,
Simeon yn y demel
 Yn dwedyd, Digon yw;
Roedd pawb o'r hen ddisgyblion
 Yn dweyd mai ynddo ef
Roedd modd i olchi'r aflan
 A'i ddwyn i deyrnas nef.

O Dduw goleua'r dynion
  Sy'n dilyn gwagedd ffol,
A thyn ni gyda'n gilydd
  I redeg ar dy ol,
Fel y gallom gael dedwyddwch
  A heddwch i barhau,
Yn lle cael casglu parddu
  Tros byth mewn poen a gwae.

Na fydded neb mor ynfyd
  A gwawdio deddfau Duw;
Y'ngwaed y groes mae digon
  O foddion i ni fyw,
Cawn ynddo bob dedwyddwch
  A gwydfyd hyfryd hedd,
Ymdrechwn am faddeuant,
  Cyn myn'd o'r byd i'r bedd,

Ffarwel yn awr gyfeillion,
  Ar fyr cawn fyn'd i'r bedd,
Gobeithio cawn gyfarfod
  Y'ngwlad yr hyfryd hedd,
Lle na bydd un afiyd,
  Na chlefyd mwy na phoen,
Ond canu a chlodfori
  Yn nghwmni'r addfwyn Oen.

JOHN JAMES,